Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Defnydd o Iaith gan Weithwyr Proffesiynol mewn Perthynas â Phlant a Phobl Ifanc sydd Mewn Perygl o Gael eu Camfanteisio




## 1 Cefndir

Mae iaith sy'n beio'r dioddefwr yn iaith sy'n awgrymu bod y plentyn yn rhan neu'n gyfrifol am y gamdriniaeth.

Mae'n rhaid defnyddio iaith briodol i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyfeirio at blant gan beidio â'u beio am y troseddau sydd wedi digwydd iddyn nhw.

## 2 Yr effaith

Os yw gweithwyr proffesiynol yn defnyddio iaith sy'n beio'r dioddefwr yna ceir perygl o normaleiddio a lleihau profiad y plentyn, gan arwain at ddiffyg ymateb priodol.

Yn ogystal, mewn achosion troseddol bydd gan yr heddlu ddyletswydd i ddatgelu unrhyw ddeunydd a all gynorthwyo'r amddiffyniad. Felly gall iaith sy'n beio'r dioddefwr danseilio ymchwiliad yr heddlu.

## 3 Enghreifftiau

- *"Rhoi ei hun mewn perygl"*
- *"Anfoesol"*
- *"Yn cysylltu ag oedolion ar y rhyngrwyd"*
- *"Smyglo cyffuriau"*
- *"Mae'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant"*
- *"Mae hi'n 15 oed a chanddi gariad sy'n 30"*

## 4 Pethau i'w hystyried

- Dydi plentyn ddim yn gyfrifol am fod mewn perygl
- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn
- Mae oedolyn yn hwyluso'r cyswllt yma
- Mae'r plentyn yn cael ei ecsbloetio at ddibenion troseddol
- Dydi camfanteisio rhywiol ddim wedi bod yn ddewis i'r plentyn
- Mae oedolyn yn ymddwyn yn amhriodol gyda phlentyn

## 5 Beth ddylai ymarferwyr ei wneud?

- Sicrhau bod llais y plentyn yn amlwg yn yr holl recordiadau
- Cofio bod y plentyn yn ddioddefwr a ddim o reidrwydd yn sylweddoli bod rhywun yn camfanteisio arno
- Osgoi defnyddio iaith sy'n awgrymu bod y plentyn yn rhan neu'n gyfrifol am y troseddau sydd wedi digwydd iddo
- Herio unrhyw achos o iaith sy'n beio'r dioddefwr

## 6 Beth ddylai rheolwyr ei wneud?

- Adolygu'r iaith a ddefnyddir yn ystod recordiadau yn rheolaidd r
- Os oes iaith o'r fath wedi'i defnyddio, gwneud yn siŵr nad ydi hyn yn digwydd eto
- Trafod iaith sy'n beio'r dioddefwr yn ystod cyfarfodydd tîm a goruchwyliaeth
- Herio unrhyw achos o iaith sy'n beio'r dioddefwr

## 7 Mwy o wybodaeth

- Appropriate Language; Child Sexual and/or Criminal Exploitation
- Barnardo's: Language Matters

**COFIWCH: dydi dioddefwr DDIM wedi dewis cael ei gamfanteisio arno nac ar fai; dylid ei ystyried yn gamdriniaeth**